



Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru:

11,919



Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru:

24,834

Mentora



604

O BOBL WEDI CAEL EU MENTORA



35

PERSON NEWYDD WEDI CAEL EU MENTORA YN YSTOD Y CYFNOD HWN

Y pynciau mwyaf poblogaidd a ymgeisiwyd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod oedd:

Cefnogaeth amaeth-amgylcheddol

Cynllunio olyniaeth

Gwinwyddaeth


Rheolaeth glaswelltir

Rhwydwaith Arddangos

Fferm Bryn: Cyflwyno mentrau newydd ar fferm gymysg

Mae fferm Bryn ger Aberteifi wedi bod yn ceisio gwella effeithlonrwydd y fuches sugno 80 o wartheg, ac yn ystyried ffyrdd y gallent fod yn wydn yn erbyn bygythiad TB. Mae Bryn yn fferm gymysg gyda gwartheg sugno a thir â, felly byddai edrych ar besgi teirw bíff gan ddefnyddio lloi gwryw o'r fuches sugno a defnyddio porthiant a gwellt o'r fenter â yn cyd-fynd yn dda gyda'i gilydd a lleihau'r risg TB o'i gymharu â gwerthu gwartheg stôr. Cymerwyd sampl o'r haidd wedi'i rollo i ganfod y gwerth maethol, a chafodd ei gydbwyso gyda chymysgedd porthiant i sicrhau'r gwerth maethol addas ar gyfer y teirw wrth iddynt dyfu. Roedd Huw yn gweld y system yn rhwydd iawn, gan sicrhau bod cafnau bwydo ad-lib yn llawn a phwysu'r teirw'n rheolaidd i fonitro twf. Roedd cyfradd twf y teirw'n uwch na'r targed o 2kg/dydd ar 2.41kg/dydd ar gyfartaledd. Gyda phrisiau bíff yn £3.70/kg ym mis Mawrth 2021 a phwysau carcasau yn 330kg, roedden nhw'n cael £1,200/pen ar gyfartaledd.

Ar ôl tynnu'r costau, llwyddodd fferm Bryn i sicrhau elw o £3,500, ac yn bwysig i Huw, nid oedd angen iddo bryderu am y statws TB gan eu bod yn mynd yn uniongyrchol i'r lladd-dy. Mae'r incwm ychwanegol hwn o besgi teirw bíff wedi cyflwyno menter newydd i'r fferm, gan wasgaru'r risg ariannol a'r risg TB yn hytrach na gwerthu popeth fel stôr. Ar ôl rhedeg y system teirw bíff yn 2020 a 2021, bydd Huw yn parhau gyda'r fenter, ac mae wedi ei annog i geisio pesgi heffrod oddi ar y borfa, sydd hefyd yn fenter newydd ar y fferm, gan gyflwyno llif arian parod newydd i'r busnes.



Ffigur 1. Dosraniad pwysau teirw ym mis Mawrth ac Ebrill

Gwern Hefin: Ymchwilio i fuddion ariannol magu eu heffrod llaeth eu hunain

Mae fferm Gwern Hefin ger Y Bala yn fuches sy'n lloia drwy gydol y flwyddyn sy'n cael ei rhedeg fel buches gyfnewid dros dro (flying herd) gyda'r gwartheg yn cael eu troi at darw bíff, ac yna'n cael eu magu ar fferm arall yng Ngheredigion. Mae gwartheg llaeth cyfnewid yn cael eu prynu o'r farchnad naill ai fel heffrod sydd wedi geni lloi neu wartheg sy'n llaetha, ac mae'r fuches yn lloia drwy gydol y flwyddyn.

Mae Gwern Hefin bellach eisiau symud tuag at fuches sy'n lloia yn y gwanwyn ac maent wedi prynu heffrod llaeth sydd wedi derbyn semen gwartheg godro wedi'i bennu yn ôl rhyw ym mis Mai a Mehefin.

Mae astudiaethau yn y gorffennol wedi dod i'r casgliad bo magu heffer gyfnewid yn gallu costio £1,800 ar gyfartaledd, gan amrywio o £1,000 i £3,000. Yn y prosiect hwn, byddwn yn edrych i weld beth fyddai costau a ffactorau ymarferol yn ymwneud â magu anifeiliaid cyfnewid yn arbennig ar gyfer y safle ffocws o'i gymharu â phrynu anifeiliaid cyfnewid. Gyda'r problemau hyn mewn cof, bydd y prosiect hwn yn ceisio cyfrifo gwerth/cost defnyddio semen wedi'i bennu yn ôl rhyw ar yr heffrod gorau a brynwyd i mewn i fuches gychwynnol wedi'i magu ar y fferm, ynghyd â'r buddion eraill posibl a fydd yn cael eu cynnig i'r busnes yn y tymor hir.

Gweminarau



MYNYCHODD **138** BUSNES Y WEMINAR YMA

A allai arallgyfeirio fod yn opsiwn cynaliadwy i'ch busnes? Cyfleoedd trwy'r Grant Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (an-amaethyddol)

Ymunodd Jeremy Bowen Rees o Landsker gyda Cyswllt Ffermio i drafod manteision arallgyfeirio, a sut y gallai arallgyfeirio wneud eich busnes yn fwy cynaliadwy. Ymunodd Katy Watkin o dîm polisi Llywodraeth Cymru hefyd i gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â'r cyfnod cyflwyno datganiad o ddi-ddordeb ar gyfer y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (y tu allan i amaethyddiaeth). Yn ystod y weminar, rhannwyd gwybodaeth ynglŷn â'r gefnogaeth berthnasol y gall Cyswllt Ffermio ei chynnig. Yn dilyn cyflwyniad yr holl siaradwyr, cynhaliwyd sesiwn cwestiwn ac ateb.

Agrigôp

61 GRŴP GWEITHREDOL gyda

492 O AELODAU wedi mynychu cyfanswm o

62 CYFARFOD yn ystod y cyfnod hwn

Pynciau a drafodwyd:

Twristiaeth ac arallgyfeirio

Tyfu llysiau

Carbon

Ffermio fertigol

Cynllun Datblygu Personol (PDP)

CAFODD **136** PDP EU CREUYN YSTODY CYFNOD



E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

ADNODDAU DYNOLARY FFERM

TAW

ARALLGYFEIRIO BUSNES FFERM

CYNLLUNIO A CYLLID

Cliciwch yma i fynd i'r wefan.



46 O BROSIECTAU WEDI'U
CYMERADWYO YN
GWEITHIO GYDA



232 FFERMWR A
CHOEDWIGWR

Datblygu grŵp Cig Eidion Mynyddoedd Cambrian i reoli ac ehangu eu cadwyn gyflenwi

Roedd y grŵp hwn o ffermwyr eisiau gweithio ar wella eu sgiliau er mwyn gallu sicrhau gwell rheolaeth ar y ffordd yr oedden nhw'n marchnata ac yn gwerthu eu cig eidion. Ceir diddordeb cynyddol mewn gwerthu'n uniongyrchol i gwsmeriaid, ond mae hyn yn golygu gofynion ychwanegol o ran sgiliau o fewn y busnes i sicrhau bod y buddsoddiad amser ac offer angenrheidiol yn ymarferol o safbwynt economaidd. Cynhaliodd y grŵp gyfres o gyrsiau hyfforddiant yn canolbwyntio ar farchnata, brandio a thechnegau cigyddiaeth, gan fod y rhain oll yn agweddau nad oeddent wedi gorfod eu hystyried yn y gorffennol. Yn ogystal, un o'r ffactorau mwyaf sy'n atal busnesau rhag sefydlu cadwyn gyflenwi fer yw cyflenwad cynnyrch trwy gydol y flwyddyn. Dyma le gall gweithio mewn grŵp fod o fudd sylweddol, ac roedd y grŵp yn gallu cynllunio sut i reoli hyn ar y cyd.

Rhaglen TGCh

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3
Cyfrifiaduron i Ddechreuwyr = 115 unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	Hyfforddiant un-i-un = 26 unigolyn wedi derbyn hyfforddiant	Gweithdai = 132 wedi mynychu

Roedd themâu'r gweithdai yn cynnwys:

- Ymwbyddiaeth ynglŷn â Seiberddiogelwch
- Ymwbyddiaeth ynglŷn â Gwneud y gorau o'ch glaswellt
- Cyfrifysyddu carbon fferm
- Creu gwefan

Cymorthfeydd




CYNHALIWIYD

23 CYMHORTHFA gyda



161 O FNYNCHWYR

Nifer y cymorthfeydd a fynychwyd fesul sector



Ffigur 2: Nifer y cymorthfeydd a fynychwyd fesul sector

Adborth gan fuddiolwyr:

"Fe wnaethom ni edrych ar oblygiadau treth etifeddiaeth, goblygiadau trosglwyddo tir a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer pob unigolyn sy'n rhan o'r broses. Rhoddodd y gymhorthfa lawer i ni ei ystyried a phethau i ymchwilio ymhellach er mwyn dewis y trywydd gorau ar fy nghyfer i a'r busnes at y dyfodol."

"Roedd y gymhorthfa isadeiledd yn ddefnyddiol iawn, ac rwy'n siŵr y gallai arbed tipyn o arian i ni yn y dyfodol. Bydd newidiadau bach yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ac nid oes angen i ni wario llawer iawn o arian fel yr oeddem ni'n ei feddwl yn wreiddiol."

Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cymorth o dan gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn:



Derbyniodd 62 o unigolion gymorth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Derbyniodd 2 grŵp Menter ar y Cyd gymorth drwy Gategoriâu Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar ddarpariaeth y gwasanaeth Cyngori hwn:

"Roedd gwir angen y gwasanaeth a'r gefnogaeth, ac mae wedi ein cynorthwyo i symud ymlaen gyda'r syniadau a'r cynlluniau na fyddem ni wedi gallu eu gweithredu ar ein pen ein hunain."

"Bydd y cynllun busnes yn ein galluogi i symud ymlaen gyda'n prosiect dofednod. Diolch."

Grwpiau Trafod

Grŵp Trafod Datblygwyr Llaeth

Ymunodd Andy Dodd o'r Farm Consultancy Group â grŵp trafod Datblygwyr Llaeth i drafod costau magu heffrod. Cynhaliwyd y cyfarfod ar fferm a oedd wedi buddsoddi mewn uned fagu heffrod yn ddiweddar, felly roedd yn gyfle gwych i'r aelodau weld drostynt eu hunain sut mae sylw i fanylder yn gallu cynnig gwelliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd.

Awgrymodd Andy mai costau magu heffrod yw'r ail factor mwyaf costus mewn busnesau llaeth ar ôl porthiant, gyda chostau magu heffer oddeutu £1,800 ar gyfartaledd. Nid yw'r heffrod yn cynhyrchu unrhyw incwm nes ar ôl eu llaethiad cyntaf, a dim ond 25% o heffrod sy'n addalu ar y buddsoddiad yn ystod y llaethiad cyntaf. Mae hyn yn dangos bod effeithlonrwydd, sylw i fanylder o ran iechyd llooi a sicrhau cyfraddau twf uchel yn allweddol ar gyfer sicrhau system fagu heffrod lwyddiannus. Dylai targedau twf fod fel a ganlyn:

- Dyblu pwysau ar enedigaeth erbyn 56 diwrnod
- 25% o bwysau llawn dwf erbyn 6 mis
- 50% o bwysau llawn dwf erbyn 12 mis
- 60% o bwysau llawn dwf wrth fridio
- 85% o bwysau llawn dwf ar ôl geni llo

Soniwyd hefyd mai 28 mis yw oedran cyfartalog heffrod sy'n lloia am y tro cyntaf. Yn ddefnyddol, dylai hyn fod yn nes at 23 mis, neu hyd yn oed yn llai, er mwyn lleihau costau. Cafodd aelodau eu herio i gyfrifo eu costau magu heffrod eu hunain i weld sut yr oedden nhw'n cymharu gyda chyfarfod y diwydiant. Cafodd aelodau'r grŵp hefyd eu hatgoffa bod opsiynau eraill ar gael, megis magu ar gontract, sydd wedi bod yn effeithiol ar gyfer rhai busnesau.

Roedd y prif negeseuon a drafodwyd yn y cyfarfod yn cynnwys:

- Cyfrifo eich costau magu heffrod
- Canolbwyntio ar iechyd llooi
- Sicrhau'r cyfraddau twf gorau
- Anelu at 23 mis ar gyfer geni llo am y tro cyntaf

Hyfforddiant

Cwrs	Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Cadw Llyfrau	22
Marchnata eich Busnes	12
Cynllunio a Datblygu Busnes	10
Cynllunio ar gyfer arallgyfeirio neu fenter newydd ar fferm	9
Deall a defnyddio eich cyfrifon	8